

# Fferru yng nghlefyd Parkinson's

**B**ydd rhai pobl sy'n dioddef o Parkinson's yn cael symptom a elwir yn fferru.

**Bydd yr wybodaeth sy'n dilyn yn egluro beth ydy fferru, pa driniaethau sydd ar gael, a beth allwch chi'i wneud i'w reoli. Bydd hefyd yn gwneud argymhellion am sut i ddechrau symud eto, a sut i leihau'r tebygolrwydd o gwympo wrth fferru.**

## Beth ydy fferru?

Mae fferru yn gallu bod yn symptom cyffredin o Parkinson's. Fe'i disgrifir gan bobl fel teimlo fod eich traed wedi'u glynú i'r llawr.

Os ydych chi'n cael profiad o fferru, gallech deimlo'n sydyn na fedrwch symud yn eich blaen am rai eiliadau neu funudau. Gallech hefyd deimlo fel petai eich hanner isaf yn sownd, ond fod hanner uchaf eich corff yn dal i allu symud. Gallech deimlo'r toriad yma yn eich symudiad wrth ddechrau cerdded neu tra'n cerdded. Gallech hefyd gael profiad ohono wrth geisio troi. Er hynny, gallai fferru hefyd gael effaith arnoch chi wrth ichi wneud pethau eraill fel siarad, neu yn ystod symudiad ailadroddus fel ysgrifennu.

Mae bod mewn trafferth yn ceisio dechrau symud weithiau'n cael ei alw yn 'gychwyn petrus'. Gallai hyn ddigwydd wrth ichi geisio cymryd cam ymlaen newydd ichi godi ar eich traed, pan fyddwch eisiau codi o'r gwely neu pan fydddech yn ceisio llyncu diod neu fwyd.

## Pam fo pobl â Parkinson's yn fferru?

Hyd yn hyd, nid ydym yn gwybod yn union beth sy'n achosi fferru. Y cwbl a wyddom ydy fod

fferru'n digwydd pan fo rhywbeth yn ymyrryd mewn cyfres o symudiadau, neu'n mynd o'i ffordd.

Gall waethyg os ydych chi'n teimlo'n bryderus, dan straen neu os ydych chi'n colli'ch gallu i ganolbwytio. Mae fferru hefyd yn debycach o ddigwydd os buoch chi'n dioddef o Parkinson's am gyfnod hir.

Gall fferru hefyd ddigwydd os nad ydych wedi cymryd eich meddyginaeth mewn pryd, neu os methwch ddos, neu os ydych chi'n rhwym iawn.

## Pa le a pha bryd mae'n debyg o ddigwydd?

Mae fferru yn fwy tebygol o ddigwydd wrth ichi gerdded, gan mai cyfres o symudiadau unigol sy'n dilyn ei gilydd ydy cerdded. Os ydy un darn o'r dilyniant yn cael ei rwystro, gall y symudiad cyfan ddod i stop.

Mae fferru'n gyffredin pan fyddwch:

- yn cerdded tuag at ddrysau, cadeiriau neu o gwmpas rhwystrau
- yn troi neu yn newid cyfeiriad
- yn cael tynnu eich sylw at dasg arall wrth ichi gerdded, a bod y 'llif' cerddediad yn cael ei rwystro gan rywbeth sydd o'ch ffordd, neu rywun yn siarad, neu unrhyw beth arall sy'n tynnu eich sylw
- mewn tyrfa neu le prysur

Gall pob un o'r rhain ymyrryd yn eich rhythm a'ch rhwystro rhag cario ymlaen.

Fel arfer, mae hyd ein camau yn newid wrth i ni symud o gerdded dros lawr llyfn i lawr anwastad. Os oes gennych chi Parkinson's, fe allech gael trafferth i wneud y newid yma'n awtomatig. Er engraifft, fe allech fod yn gallu cerdded yn ddidrafferth ar lawr anwastad, ond eich bod yn fferru os yw'r llawr yn fwy llyfn neu fod ganddo batrwm ar ei wyneb.

Neu gall y gwrthwyneb fod yn wir. Gallai patrwm eich cerddediad fynd yn ddireolaeth, a'ch camau fynd yn llai ac yn llai. Mae llawer o bobl sy'n dioddef fferru yn synnu nad ydynt yn cael trafferth wrth ddringo neu ddod i lawr

grisiau, ond eu bod yn fferru cyn gynted â'u bod yn cyrraedd llawr gwastad eto.

## Ydw i'n debygol o fferru?

Dydy pawb sydd â Parkinson's ddim yn cael problem efo fferru. Mae fferru weithiau'n digwydd yn ystod y cyfnod ar ôl cael diagnosis o'r cyflwr. Yn enwedig, mae'n debyg o ddigwydd i bobl nad ydynt yn cymryd meddyginaeth ar gyfer eu cyflwr yn brydlon.

Ond mae'n fwy tebygol o ddigwydd os ydych wedi bod yn dioddef o Parkinson's am gryn dipyn o amser, ac os buoch yn cymryd levodopa am rai blynnyddoedd. Mae hyn oherwydd bod eich ymateb i levodopa yn gallu lleihau ar ôl bod yn ei gymryd am beth amser.

## Ydy fferru yr un peth â bod 'arno'?

Na. Mae rhai dioddefwyr Parkinson's yn cael cyfnodau 'hebddo' ac 'arno'. Pan fyddwch 'hebddo' mae'r symptomau dan reolaeth, ond pan fyddwch 'arno' mae symptomau'r cyflwr yn dod yn ôl ac yn anodd eu rheoli.

Gall newid o un i'r llall ddigwydd yn gyflym iawn. Disgrifiwyd hyn gan rai pobl fel golau yn cael ei roi ymlaen neu ei ddiffodd. Pan fyddwch 'arno' mae'n gallu bod yn arwydd nad ydy'r feddyginaeth levodopa yn gweithio crystal ag yr oedd o'r blaen.

Mae bod 'arno' neu 'hebddo' yn wahanol i fferru. Dywedodd dioddefwyr wrthym fod y cyfnodau 'arno' yn gallu golygu methu symud o gwbl, fel bod cerdded, dringo grisiau neu estyn am gwpan yn anodd iawn iddynt.

Ond pan fyddent yn fferru, dim ond rhai rhannau o'r corff neu rai symudiadau sy'n cael eu heffeithio. Felly, er nad ydych yn gallu cerdded, fe allech fod yn dal i allu estyn am rywbeth. Cymrwch ofal os ydy hyn yn digwydd i chi. Os yw'r traed yn fferru a chithau'n ceisio estyn am rywbeth i afael ynddo sy'n rhy bell, gallech golli'ch cydbwysedd a chwympo.

Mae gwahanol ffyrdd o reoli fferru a chyfnodau 'arno' a 'hebddo', felly dylai'ch arbenigwr neu nrys Parkinson's eu trin fel problemau ar wahân.

**Rhagor o gyngor: chwiliwch am ein gwybodaeth am effaith meddyginaeth yn lleihau a symudiadau anwirfoddol (dyskinesia).**

## A all fferru fod yn beryglus?

Gall fferru a llusgo'ch traed gael effaith ar eich cydbwysedd a'ch gwneud yn fwy tebygol o gwympo.

Cymrwch ofal mawr pan fyddwch yn cerdded ar hyd camlesi neu'n croesi ffyrdd prysur. Gall nesio hefyd fod yn anodd os ydych chi'n fferru. Dywedodd rhai pobl eu bod yn osgoi defnyddio grisiau symudol neu lwybrau cerdded awtomatig fel sydd mewn rhai canolfannau siopau, gorsafoedd trêñ a meysydd awyr. Byddai efallai'n ddefnyddiol ichi fod â rhywun hefo chi pan fyddwch yn gwneud y pethau uchod, os ydy hynny'n bosib.

**Rhagor o gyngor: chwiliwch am ein gwybodaeth am gwympo a Parkinson's i ddysgu mwy am sut i osgoi cwympo.**

## Oes triniaeth ar gael ar gyfer fferru?

Trafodwch gyda'ch meddyg teulu, eich arbenigwr neu nyrs Parkinson's ynglŷn â'r driniaeth orau ar gyfer eich problem fferru. Gallent hefyd eich cyfeirio at fath o therapi fyddai'n fuddiol ichi.

Dyma rai triniaethau posib:

### Cyffuriau

Os ydych chi'n dueddol o fferru yn ystod eich cyfnodau 'arno', gall newidiadau i'r math o feddyginaeth a gymrwch, neu ei amseriad, eich helpu i beidio cael cyfnodau 'arno' mor aml. Trafodwch gyda'ch arbenigwr neu nyrs Parkinson's am unrhyw newidiadau i'ch meddyginaeth. Peidiwch â stopio eu cymryd yn ddirybudd gan y gall hyn fod yn beryglus.

Pan fo fferru'n digwydd yn ystod cyfnodau 'hebddo', neu os nad oes ganddo unrhyw gysylltiad gyda'r newid rhwng cyfnodau 'arno' a 'hebddo', fel arfer ni ellir ei drin gyda chyffuriau Parkinson's.

### Therapi galwedigaethol

Therapydd galwedigaethol ydy'r math o weithiwr iechyd proffesiynol sy'n helpu pobl fod mor annibynnol â phosib.

Byddent yn edrych ar eich gweithgareddau beunyddiol ac efallai'n cynnig cyngor ar sut i wneud eich cartref neu eich gweithle yn fwy diogel neu'n haws ei reoli. Gallai hyn gynnwys dangos dulliau haws o wneud rhyw weithgaredd fel mynd i'ch gwely neu godi ohono. Gallent hefyd gynnig cyngor am offer neu gymorth allai eich helpu i gyflawni rhyw dasg yn fwy diogel ac yn hwylusach.

Gallai therapydd galwedigaethol eich helpu i ddod o hyd i ddulliau penodol o symud yn haws o gwmpas eich cartref yn enwedig mewn darnau ohono sy'n gallu achosi ichi fferru.

Gallent hefyd eich helpu i ddod o hyd i ddulliau o reoli cyfnodau o fferru mewn sefyllfaoedd eraill. Os ydych chi'n cael trafferth trefnu eich bywyd o ddydd i ddydd, neu eich bod yn teimlo'n bryderus iawn, gall therapydd galwedigaethol eich helpu i ddysgu technegau ar gyfer rheoli'r pryderon hyn.

**Rhagor o gyngor: chwiliwch am ein gwybodaeth am therapi galwedigaethol a Parkinson's.**

### Ffisiotherapi

Os ydych chi'n fferru mewn ystum lle rydych chi'n pwys o ymlaen gyda'ch pen-gliniau wedi'u plygu, eich sodlau oddi ar y llawr a'ch pen yn gwyro ymlaen, rydych yn debycach o ddisgyn, gan fod yr atgyrch (reflex) sy'n eich helpu i gadw'ch cydbwysedd ddim yn gweithio cystal. Mwyaf yn y byd y byddwch yn ceisio symud eich traed, mwy a mwy sigledig fyddwch chi'n mynd, gan gynyddu'r tebygolrwydd o gwympo.

Gall ffisiotherapydd eich helpu gyda thechnegau i leihau'r tebygolrwydd o gwympo a brifo pan fyddwch yn fferru. Gall y rhain gynnwys ymarferion i gryfhau'r cyhyrau sy'n eich helpu i sefyll yn syth (fel cyhyrau'r coesau) ac yn gwella'ch osgo a'ch ffordd o gerdded.

Dyma rai enghreifftiau:

- dysgu rhoi eich sawdl i lawr yn gyntaf wrth gerdded – bydd hyn yn eich helpu i gadw'ch cydbwysedd
- dysgu dygymod gyda gwneud dau beth ar yr un pryd (e.e. cario rhywbeth tra'n cerdded) gan sicrhau eich bod yn gwybod lle i ganolbwytio'r sylw
- sythu eich corff i osgo sy'n mynd i'ch gwneud chi'n fwy sad ar eich traed
- dysgu sut i symud eich pwysau i un ochr i'ch gwneud yn barod i gymryd cam gyda'r goes arall
- defnyddio gwahanol 'arwyddion' (pethau i'w gwneud fyddai'n hybu'r symudiad)
- dysgu rheoli'r tueddiad i fferru mewn amryw o lefydd ac o sefyllfaoedd, fel bod eich cof yn cael ei atgoffa'n gyflymach mewn sefyllfa go-iawn. Gall ymarfer mewn darnau o'ch cartref sy'n gwneud ichi fferru fel arfer fod yn arbennig o ddefnyddiol.

Gall eich ffisiotherapydd hefyd roi cyngor ichi am offer i'ch helpu i gerdded. Mae'n bwysig iawn cael cyngor proffesiynol ynglŷn â hyn, achos os nad ydych chi'n dewis yr un cywir, fe allai'r tueddiad i fferru fynd yn waeth yn hytrach na'n well.

Gofalwch siarad gyda gweithiwr iechyd proffesiynol cyn defnyddio offer fel ffrâm Zimmer, gan nad ydynt bob amser yn addas ar gyfer pobl sydd â Parkinson's.

Mae llawer o bobl sy'n dioddef o Parkinson's yn cerdded yn well heb unrhyw gymorthyddion, ond dim ond ar ôl iddynt ddysgu sgiliau symud i'w helpu i reoli'r broblem.

**Rhagor o gyngor: chwiliwch am ein gwybodaeth am ffisiotherapi a Parkinson's, a chwympo a Parkinson's.**

## Llawdriniaeth

Mae ysgogiad ymenyddol dwfn yn fath o lawdriniaeth sy'n gallu helpu rhai pobl sydd â Parkinson's. Nid yw'n addas i bawb, ond mae rhai pobl yn teimlo'i fod yn helpu gyda fferru.

**Rhagor o gyngor: chwiliwch am ein gwybodaeth am ysgogi ymenyddol dwfn ar gyfer Parkinson's.**

## Beth alla'i wneud i helpu fy hunan?

Gall fferru fod yn symptom sy'n cynhyrfu rhywun, ac weithiau'n eu dychryn. Os ydych chi'n fferru'n gyson, byddwch efallai'n osgoi'r llefydd lle rydych fwyaf tebygol o fferru, fel mannau cul, llefydd prysur neu newydd, neu borth drysau.

Ond ddylai fferru ddim eich rhwystro rhag gwneud y pethau rydych chi'n eu mwynhau, ac mae yna ddulliau o'ch helpu i'w reoli.

Mae'n rhaid i bawb ddod o hyd i'r ffordd orau o ddygymod â fo. Mae'n bwysig dod i wybod beth sydd orau ar eich cyfer chi, a pheidio â gadael i boeni am fferru eich rhwystro rhag gwneud unrhyw beth sy'n rhoi mwyniant ichi. Mae poeni yn gwneud fferru'n fwy tebygol.

Cofiwch, os bydd eich traed yn fferru, a'ch bod yn ceisio estyn allan am gynhaliaeth sy'n rhy bell oddi wrthych, gallech golli'ch cydbwysedd a chwympo.

## Strategaethau symud a thechneg arwyddion

Ni fydd tueddiad i fferru yn diflannu, ond gallwch wella'ch rheolaeth drosto drwy ddefnyddio nifer o strategaethau. Mae amrywiaeth eang o dechnegau sy'n defnyddio strategaeth benodol neu 'arwydd' i hybu'r symudiad ar ôl fferru. Bydd gwybod sut i'w gwneud yn eich helpu i ddelio gyda fferru, ac efallai'n gwneud ichi boeni llai pan fydd yn digwydd, a rhoi gwell rheolaeth ichi.

Mae rhestr isod o rai o'r dulliau sydd wedi cael eu hargymhell gan therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion sydd â phrofiad o weithio gydag unigolion sy'n dioddef o Parkinson's.

Cofiwch fod dulliau gwahanol yn mynd i weithio'n well mewn gwahanol sefyllfaoedd, ac ar adegau gwahanol yn ystod y cyflwr. Felly, rhowch gynnig ar wahanol strategaethau i weld pa rai sy'n gweithio orau i chi, a defnyddiwch nhw i adfer eich symudiad.

Efallai y bydd llawer o'r dulliau yn eich helpu i lyncu bwyd a diod hefyd os nad ydy hyn yn

digwydd yn awtomatig. Efallai y dowch o hyd i ddulliau o leihau neu osgoi fferru'n llwyr.

## Beth i'w wneud os ydych chi'n fferru neu'n methu ailgychwyn

Os ydy symudiad yn gwrthod llifo'n llyfn, gall gwneud ymdrech i feddwl am bob rhan unigol o symudiad cyfarwydd neu syml eich helpu i ailgychwyn.

Os yw eich traed yn fferru, gallech syrthio, felly sicrhewch fod eich teulu, ffrindiau a'ch gofalwyr yn gwybod am y fferru, a'u bod yn gwybod sut i helpu pan fydd yn digwydd.

Y peth cyntaf i'w wneud wrth deimlo'ch hun yn fferru ydy stopio symud, neu arafu. Bydd hyn yn rhoi cyfle ichi ganolbwytio ar eich cydbwyseidd, i feddwl am eich symudiad nesaf, a pharatoi eich corff i ailgychwyn, fydd efallai'n lleihau'r perygl o gwympo.

## Y dull cynllunio

Rhowch gynnig ar y canlynol:

- **STOPIO:** ymdawelwch a chymryd anadl
- **MEDDWL:** beth ydych chi am ei wneud?
- **CYNLLUNIO:** sut ydych chi am wneud hyn?
- **GWNEUD:** gorffennwch y dasg neu'r symudiad.

## Y dull symud pwysau

- Pan fyddwch yn fferru, peidiwch â cheisio symud ymlaen yn syth bin. Yn lle hynny, symudwch y rhan fwyaf o'ch pwysau i un goes yn raddol (dyma sydd fel arfer yn digwydd pan fyddwch yn dechrau cerdded). Bydd symud eich pwysau i'r goes sy'n eich cynnal fel hyn yn caniatáu ichi gymryd cam gyda'r droed arall. I helpu gyda hyn, cyfrwch 'un, dau, tri, camu' neu 'paratowch, barod, ewch' wrthoch eich hunan er mwyn ailgychwyn symud eto.
- Efallai y medrwch ailgychwyn cerdded eto drwy siglo eich pen a'ch ysgwyddau fymryn o un ochr i'r llall. Gall y siglo yma eich helpu i symud pwysau eich corff i'r goes sy'n eich cynnal.

- Mae'n bosib y byddai dweud rhywbeth wrthoch eich hun wrth wneud hyn yn helpu, fel 'symud fy mhwysau i'r droed chwith, a chamu efo'r dde' (neu fel arall). Efallai y bydd raid ichi siglo o goes i goes i ryddhau'r pwysau ar bob troed cyn cychwyn y cam.

## Dulliau arwyddo drwy sain neu weld

Gall defnyddio cyfri, sain neu rythm helpu weithiau – er enghraifft:

- Cerdded yn yr unfan er mwyn cadw'r rythm i fynd, fel pan fyddwch wedi stopio i agor drws.
- Ar ôl fferru a chymryd saib, penderfynwch pa droed yr ydych yn mynd i gamu gyda hi'n gyntaf, ac yna symud ymlaen ar ôl dweud rhywbeth fel 'un, dau, tri, camu' neu 'paratowch, barod, ewch'. Gallwch ddweud hyn yn uchel neu'n ddistaw wrthoch eich hun. Os oes gennych gwmni pan fferrwch, gallai'r person hynny ddweud y geiriau drosoch.
- Os ydy ardal arbennig yn peri ichi fferru, gall defnyddio rhythm eich helpu i fynd heibio'r darn 'problemus' yn ddidrafferth. Gallech ganu neu hymian tiwn wrth gerdded (yn uchel neu'n dawel wrthoch chi'ch hunan). Cyfrwch eich camau o un i ddeg (gan ddechrau eilwaith ar ôl cyrraedd deg), neu dywedwch yn uchel, 'un, dau, un, dau, un dau' neu 'chwth, de, chwth, de, chwth, de'. Mae'r dull yma'n helpu cadw'r rhythm, ac yn gallu helpu osgoi fferru wrth ddod at ddrws ac yn y blaen
- Dweud gair 'sbarduno' wrthoch eich hun fel 'camu', 'mynd' neu 'llyncu' er mwyn ailgychwyn cerdded, neu er mwyn gallu llyncu bwyd neu ddiod.
- Os ydy fferru'n broblem sy'n digwydd yn aml, gallech lawr lwytho cerddoriaeth i chwaraewr MP3, er mwyn gallu gwrando arno wrth gerdded, er mwyn helpu osgoi fferru.
- Defnyddio metronom i ailgychwyn eich cerdded. Dyfais sy'n cael ei defnyddio gan gerddorion ydy metronom.
- Mae metronom yn cynhyrchu tic neu drawiad rheolaidd sy'n helpu cerddorion gadw at rhythm penodol. Gallwch eu prynu ar lein yn hawdd, neu mewn siopau sy'n gwerthu offerynnau cerdd. Gofalwch eich bod yn gallu defnyddio'r botymau rheoli'n hwylus cyn prynu un.

## Defnyddio'r dychymyg

Os ydy hi'n anodd ichi ddechrau symud, rhowch gynnig ar wneud y symudiad yn eich meddwl yn gyntaf. Ceisiwch ddychmygu neu gofio gwneud y symudiad yn fanwl, heb unrhyw rwystrau o ran symud. Mae meddwl am wneud rhywbeth yn y ffordd yma yn cael ei alw'n 'ymarfer meddyliol' weithiau.

Yn aml, mae pobl sy'n gwneud chwaraeon a cherddorion yn defnyddio'r dechneg hon ar gyfer ymarfer a gwella'u perfformiad. Mae'n gweithio am fod meddwl am symud yn defnyddio'r un rhannau o'r ymennydd â'r rhai sy'n cael eu defnyddio wrth wneud y symudiadau hynny'n mewn gwirionedd.

Er enghraifft, er mwyn codi o gadair esmwyth pan fyddwch yn teimlo'n ddiymadferth:

- Dychmygwch symud eich pen-ôl tuag at flaen y gadair, gan gadw'r traed ar wahân ac yn agos atoch, a gosod eich dwylo'n barod i bwys o lawr ar freichiau'r gadair.
- Yna, dychmygwch y teimlad o bwys o lawr drwy'r coesau a'r breichiau gan bwys ymlaen wrth sefyll yn ddidrafferth.
- Ar ôl ichi redeg drwy'r symudiad yn eich meddwl, paratowch i symud drwy ddweud 'un, dau tri, codi', wrth wneud y set o symudiadau rydych chi newydd eu dychmygu.

## Stribedi llawr

Os ydych chi'n fferru'n aml yn yr un llefydd yn eich cartref, a bod y dulliau a drafodwyd hyd yn hyn ddim yn gweithio, gallech roi cynnig ar ddefnyddio stribedi llawr er mwyn eich helpu i ddod dros y darnau problemus.

Gall stribedi helpu os ydych chi'n cael trafferth i droi neu newid cyfeiriad ar lawr patrymog. Gallent hefyd helpu mewn drysau, lle mae angen ichi droi cornel, mewn corridorau neu mewn mannau cul eraill.

Dyma sut i'w defnyddio:

- Prynwch dâp gludiog, tâp masgio neu 'duct tape' mewn lliw sy'n wahanol i'r llawr neu'r carped.

- Torrwch y tâp yn stribedi – tri neu bedwar ohonynt – sydd rhwng 40cm i 55cm o hyd (15 i 22 modfedd).
- Glynwch nhw'n sownd i'r llawr neu'r carped, gyda thua 35cm i 50cm (13 i 20 modfedd) rhwngddynt.
- Os oes cornel, gosodwch y stribedi mewn siâp ffan o gwmpas y troad.
- Os ydy lliw'r llawr neu'r ansawdd yn newid ym mhorth y drws, gosodwch stribed lle mae'r ddau'n ymuno. Os ydy'r llawr yr un fath ar ddwy ochr y porth, rhowch stribedi yr un pellter ar wahân ar naill ochr y trothwy.

Wrth gerdded dros y stribedi, peidiwch â phoeni lle roddwch chi'ch traed. Camwch ar y llinellau neu rhwngddynt yn ôl eich dewis. Pan fydd y stribedi wedi treulio neu ddod yn rhydd ar eu hymylon, bydd angen ichi ail-osod y stribedi gan ddefnyddio tâp newydd, neu ofyn i rywun wneud hyn ar eich rhan yn gyson.

## Arwyddion posib eraill

- Os ydy matiau o liwiau gwahanol yn gwneud ichi fferru, symudwch nhw oddi ar eich llwybr arferol drwy'r ystafell honno. Ceisiwch eu gosod yn rhywle lle nad ydych chi'n cerdded yn aml, er enghraifft o dan y ffenestr. Mae lloriau mewn lliwiau plaen ac ystafelloedd heb ormod o ddodrefn yn gwneud hi'n haws symud o gwmpas.
- Os ydy rhywun sy'n gwybod am eich problem gyda chi pan fferrwch, gallent eich helpu drwy osod un o'u traed o flaen eich traed chi ar ongl sgwâr. Bydd hyn yn rhoi rhywbeth ichi gamu drosto er mwyn eich helpu i ailgychwyn cerdded. Yn ôl rhai dioddefwyr, yr hyn sy'n gweithio iddyn' nhw ydy gorfol camu dros handlen ambarél neu ffon â'u pennau i lawr, neu gamu dros bapur newydd wedi'i rowlio.
- Os yw'ch camau'n rhy gyflym i'ch corff gadw i fyny, canolbwytchiwr ar arafu'ch rhythm camu a meddwl am wneud camau mwy. Gall hyn helpu i oresgyn llusgo'ch traed, gan fod hynny'n digwydd yn aml cyn rhewi.

## Beth petawn i'n fferru mewn lle prysur?

Dywed rhai pobl eu bod yn fferru mewn mannau prysur, fel archfarchnadoedd, gorsafoedd, achlysuron cymdeithasol neu ynganol trefi. Os ydy hyn yn digwydd, dysgwch roi amser ichi'ch hunan i stopio, edrych a chynllunio eich llwybr yn gyson ar siwrnai.

Gallwch roi cynnig ar y canlynol:

- Camwch i'r ochr, o ffordd y prif lif o bobl, ac os yw'n bosib, cyffyrddwch rywbeth solat fel wal er mwyn helpu eich cydbwysedd.
- Edrychwch ar yr ardal o'ch blaen gan chwilio am unrhyw beth sydd ar eich llwybr, fel bocsys, pobl eraill, meinciau, goleuadau stryd neu droliau.
- Penderfynwch ar yr union lwybr i'w ddilyn, neu dyfalwch faint o gamau'n union fydd angen eu cymryd, cyn cerdded tuag at yr union bwynt hwnnw.

Ailadroddwch y dull yma o oedi, edrych, cynllunio a cherdded mor aml ag sydd angen ichi. Neu, os ydych chi wedi dyfalu'r nifer o gamau sydd angen eu cymryd, dechreuwch eu cyfrif gan anelu i gyrraedd pen eich taith pan fyddwch wedi cyfrif y nifer hwnnw o gamau.

Os nad ydy'r un o'r dulliau yma'n gweithio, a bod brys ichi ddechrau symud eto ar ôl fferru, ceisiwch blygu ychydig ar eich pengliniau a cherdded yn eich blaen yn yr ystum hwnnw.

## Rhagor o wybodaeth a chymorth

### Nyrsys Parkinson's

Mae nyrsys Parkinson's yn darparu cyngor a chymorth arbenigol i bobl â Parkinson's a'r rhai hynny sy'n gofalu amdanyn nhw. Hefyd gallan nhw gysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau y diwallir eich anghenion.

Mae'r rôl nyrsys Parkinson's yn amrywio. Bydd pob un yn cynnig gwasanaethau gwahanol, yan anelu at ddiwallu anghenion lleol. Lleolir rhai nyrsys yn y gymuned, tra bod eraill wedi'u lleoli mewn sefyllfaoedd ysbyty.

Mae llawer o nyrsys Parkinson's yn rhagnodwyr annibynnol. Mae hyn yn golygu y gallan nhw ragnodi a gwneud addasiadau i feddyginaeth, felly nid oes angen i rywun â Parkinson's weld eu harbenigwr am newidiadau i neu ymholiadau yngylch eu cyffuriau a gyfer Parkinson's bob tro.

Efallai na fydd nyrsys Parkinson's ar gael ym mhob ardal, ond gall eich Meddyg Teulu neu arbenigwr roi rhagor o fanylion ichi am wasanaethau lleol.

Gallwch chi ddysgu rhagor yn [parkinsons.org.uk/nurses](http://parkinsons.org.uk/nurses)

### Gwybodaeth a chymorth gan Parkinson's UK

Gallwch chi ffonio ein llinell gymorth gyfrinachol am ddim i gael cymorth a gwybodaeth gyffredinol. Ffoniwch **0808 800 0303** (mae galwadau am ddim ar linellau tir yn y DU a'r mwyafrif o rwydweithiau symudol) neu e-bostiwch [hello@parkinsons.org.uk](mailto:hello@parkinsons.org.uk). Rydyn ni'n rhedeg gwasanaeth cymorth cyfoedion os hoffech chi siarad ar y ffôn â rhywun a effeithir gan Parkinson's sydd wedi wynebu problemau tebyg i chi. Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol ac am ddim – ffoniwch y llinell gymorth i siarad â rhywun am gael eich paru â gwirfoddolwr.

Gall ein llinell gymorth eich cysylltu ag un o'h cynghorwyr lleol Parkinson's, sy'n rhoi gwybodaeth a chymorth unigol i unrhyw un a effeithir gan Parkinson's. Hefyd gallan nhw ddarparu dolenni i grwpiau a gwasanaethau lleol. Mae gan ein gwefan [parkinsons.org.uk](http://parkinsons.org.uk) lawer o wybodaeth yngylch Parkinson's a bywyd

dyddiol gyda'r cyflwr. Hefyd gallwch chi ganfod manylion yngylch eich tîm cymorth lleol a'ch cyfarfod grŵp lleol agosaf yn [parkinsons.org.uk/localtoyou](http://parkinsons.org.uk/localtoyou)

Ewch at [parkinsons.org.uk/forum](http://parkinsons.org.uk/forum) i sgwrsio gyda phobl eraill sydd wedi cael profiadau tebyg ar ein fforwm trafod ar-lein.

## **Diolch**

Diolch i bawb a sydd wedi cyfrannu i'r ddalen wybodaeth hon a'i hadolygu:

**Bhanu Ramaswamy, independent physiotherapy consultant**

**Patsy Cotton, Advanced Nurse Practitioner, Greater Manchester Neurosciences Centre**

Diolch hefyd i'n grŵp adolygu gwybodaeth a phobl eraill a effeithir gan Parkinson's a ddarparodd adborth.

## **Allwch chi helpu?**

Yn Parkinson's UK, rydyn ni'n gwbl ddibynnol ar roddion gan unigolion a sefydliadau i ariannu'r gwaith rydyn ni'n ei wneud. Mae sawl ffordd y gallwch chi ein helpu i gefnogi pobl â Parkinson's.

Os hoffech chi gymryd rhan, cysylltwch â'n tîm Gwasanaethau Cefnogwyr ar **0800 138 6593** neu ewch i'n gwefan yn [parkinsons.org.uk/donate](http://parkinsons.org.uk/donate). Diolch.

## **Ynghylch ein gwybodaeth**

Mae'r cyfan o'n gwybodaeth ddiweddaraf ar gael ar [parkinsons.org.uk/informationsupport](http://parkinsons.org.uk/informationsupport)

Os byddai'n well gennych ddarllen un o'n taflenni neu lyfrynnau mewn print, gallwch weld sut i archebu ar [parkinsons.org.uk/orderingresources](http://parkinsons.org.uk/orderingresources) neu drwy ein ffonio ar **0300 123 3689**.

Rydyn ni'n gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ein gwasanaethau'n darparu gwybodaeth gyfredol, ddidued a chywir. Rydyn ni'n gobeithio y bydd hon yn ychwanegu at unrhyw gyngor proffesiynol a dderbyniwch a'ch helpu i wneud unrhyw benderfyniadau y gallich chi eu hwynebu. Os gwelwch yn dda parhewch i siarad â'ch tîm iechyd a gofal cymdeithasol os ydych chi'n poeni yngylch unrhyw agwedd ar fyw gyda Parkinson's.

Os hoffech chi ddysgu rhagor am sut rydyn ni'n rhoi eich gwybodaeth ynghyd, gan gynnwys cyfeiriadau a'r ffynonellau gwybodaeth rydyn ni'n eu defnyddio, cysylltwch â ni yn [publications@parkinsons.org.uk](mailto:publications@parkinsons.org.uk).

## **Fferru yng nghlefyd Parkinson's (FS63W/2018)**

A oes gennych unrhyw adborth yngylch yr wybodaeth hon? Bydd eich sylwadau'n ein helpu i sicrhau bod ein hadnoddau mor ddefnyddiol a hawdd eu deall â phosibl. Dychwelwch at Y **Tîm Cynnwys Gwybodaeth, Parkinson's UK, 215 Vauxhall Bridge Road, Llundain SW1V 1EJ**, neu e-bostiwch [publications@parkinsons.org.uk](mailto:publications@parkinsons.org.uk). Diolch!

### **1. Dewiswch yr opsiwn sy'n addasach i chi.**

- Mae gen i Parkinson's a ches i fy niagnosio yn      
 Rwy'n gofalu am rywun â Parkinson's  Mae gen i ffrind neu aelod teulu â Parkinson's  
 Rwy'n weithiwr proffesiynol yn gweithio gyda phobl â Parkinson's  
 Arall (pennwch)

### **2. O ble gawsoch chi'r wybodaeth hon?**

- Meddyg Teulu  Arbenigwr  Nyrs Parkinson's  Grŵp Ileol Parkinson's UK  
 Cyngorydd Ileol Parkinson's UK  Wedi'i harchebu'n uniongyrchol gennym ni  
 Galwad i'r llinell gymorth  Arall (pennwch)

### **3. A ydy wedi ateb eich holl gwestiynau?**

- Ydy, yn gyfangwbl  Ydy, gan fwyaf  Ddim yn siŵr  Yn rhannol  Ddim o gwbl

### **4. Pa mor hawdd oedd ei deall?**

- Hawdd iawn  Hawdd  Ddim yn siŵr  Eithaf anodd  Anodd iawn



Ni yw'r elusen Parkinson's sy'n gyrru gofal, triniaethau ac ansawdd bywyd gwell.

## Gyda'n gilydd gallwn ni symud y dydd ymlaen pan na fydd unrhyw un yn ofni Parkinson's.

Parkinson's UK  
215 Vauxhall Bridge Road  
Llundain SW1V 1EJ

Llinell gyfrinachol am ddim **0808 800 0303**

(Dydd Llun I Ddydd Gwener 9am–7pm, Saturday 10am–2pm).

Cyfieithu ar y pryd ar gael

NGT Relay **18001 0808 800 0303** (I'w ddefnyddio gyda ffonau clyfar, llechenni, Cyfrifiaduron Personol a dyfeisiau eraill). Am ragor o wybodaeth gweler [www.ngts.org.uk](http://www.ngts.org.uk)

**hello@parkinsons.org.uk**  
**parkinsons.org.uk**

Cod archeb: FS63W



Diweddarriad diwethaf Tachwedd 2018. Rydyn ni'n adolygu ein gwybodaeth o fewn tair blynedd. Gwiriwch ein gwefan am y fersiynau mwyaf cyfredol o'n holl gwybodaeth.

© Parkinson's UK. Parkinson's UK yw enw gweithredu'r Parkinson's Disease Society of the United Kingdom [Cymdeithas Clefyd Parkinson's y Deyrnas Unedig]. Elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (258197) ac yn yr Alban (SC037554).



### 5. A ydy wedi'ch helpu i reoli'ch cyflwr yn well, neu wneud dewisiadau sydd wedi gwella'ch bywyd mewn rhyw ffordd?

- Mae wedi helpu llawer    Mae wedi helpu ychydig    Dim newid  
 Dydy hi ddim wedi helpu    Mae wedi gwneud pethau'n waeth

### 6. Beth yw eich cefndir ethnig?\*

- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig    Du neu Ddu Prydeinig    Tsieineaid    Cymysg  
 Gwyn - Prydeinig    Gwyn - arall    Arall (pennwch)

\*Rydyn ni'n gofyn am eich ethnigrwydd er mwyn sicrhau bod ein gwybodaeth yn cyrraedd amrediad eang o bobl. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn hwn yn opsiynol.

### Eisiau clywed rhagor gennym?

- Hoffwn i gael ymateb i fy adborth    Hoffwn i fod yn aelod o Parkinson's UK  
 Mae gen i ddiddordeb mewn ymuno â'r Grŵp adolygu Gwybodaeth, i gynnig adborth ar wybodaeth Parkinson's UK

**Os ydych chi wedi ateb 'le' i unrhyw un o'r opsiynau hyn, byddwch gystal â chwblhau'ch manylion isod.**

Enw

Cyfeiriad

E-bost

Ffôn

Pa ddull fyddai'n well gennych inni gysylltu â chi?    E-bost    Post    Ffôn

Fyddwn ni ddim yn trosglwyddo'ch manylion i unrhyw sefydliad neu drydydd parti arall. I ddysgu rhagor, darllenwch ein polisi preifat yn [parkinsons.org.uk/termsandconditions](http://parkinsons.org.uk/termsandconditions)

How would you prefer us to contact you?  Email  Post  Phone

Name \_\_\_\_\_ Email \_\_\_\_\_  
Address \_\_\_\_\_

If you've answered yes to any of these options, please complete your details below.

I'm interested in joining the information review group, to offer feedback on Parkinson's UK information  
 I would like a response to my feedback  I would like to be a member of Parkinson's UK

### Want to hear more from us?

\*We ask about your ethnicity to ensure our information is reaching a broad range of people. However, this question is optional.

